# UWCH EIRIOLWR  - DATBLYGU

| | |
|---|---|
| Mae TGP Cymru yn un o'r elusennau blaenllaw yng Nghymru, sy'n cefnogi ac yn cynrychioli plant, pobl ifanc a theuluoedd agored i niwed drwy amrywiaeth o brosiectau, hyfforddiant ac ymgyrchu. Mae gwasanaethau TGP Cymru yn cael eu hariannu gan sawl cyllidwr ac yn darparu gwasanaethau ledled Cymru. | tgp CYMRU PLANT A THEULUOEDD CHILDREN AND FAMILIES |
| **Adran TGP Cymru:** Gwasanaethau Eiriolaeth | |
| **Yn atebol i:** Rheolwr Gwasanaeth Eiriolaeth CTM | |
| **Lleoliad:** Gweithio gartref/hybrid | |
| **Diben y swydd:**<br>Ymchwilio a datblygu model cyfeirio eiriolaeth newydd ac arloesol wedi'i deilwra ar gyfer iechyd meddwl plant a phobl ifanc. | |

**Atebolrwydd/Cyfrifoldebau**

- Sicrhau cydlynu a datblygu'r gwasanaeth yn strategol, gan weithio'n agos gyda'r rheolwr llinell i nodi cyfleoedd, datblygu cynlluniau a monitro a gwerthuso meysydd ar gyfer perfformiad ac ansawdd.
- Recriwtio, cynefino, hyfforddi, goruchwylio/gwerthuso a rheoli tîm staff yn unol â pholisïau TGP Cymru a gofynion cyfreithiol gan gynnwys Gweithdrefnau Diogelu yn ogystal â chanllawiau a strategaethau corfforaethol cysylltiedig eraill.
- Datblygu cynllun gwaith ar gyfer y maes gwasanaeth – gan ei alluogi fel asesiad o'r gwasanaeth o'i gymharu â'r amcanion.
- Rhwydweithio'n briodol gyda chydweithwyr a'r gymuned, gan gynnwys datblygu ymwybyddiaeth o wasanaethau TGP Cymru ymhlith gweithwyr proffesiynol perthnasol.
- Siarad ar ran plant a phobl ifanc a lle bo hynny'n bosibl, eu galluogi i siarad drostynt eu hunain.
- Helpu plant a phobl ifanc i ddeall a chymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau; a chynrychioli eu barnau, dymuniadau a'u hanghenion a'u cyfleu i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau – a chwilio am ddatrysiadau i doriadau hawliau dynol.
- Mynd gyda phlant a phobl ifanc i fforymau gwneud penderfyniadau a sicrhau bod eu barnau yn cael eu cynrychioli – gan gynnwys trafod gyda staff addysg, gweithwyr iechyd proffesiynol, a gweithwyr proffesiynol eraill ar ran plentyn/person ifanc
- Helpu pobl ifanc i archwilio dewisiadau, deall eu hawliau a gwneud cwynion.
- Monitro ansawdd y gwasanaethau yn erbyn dangosyddion a safonau perfformiad y cytunwyd arnynt a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol pan fo'r perfformiad yn is na'r dangosyddion a'r safonau a gytunwyd.
- Rheoli cyllideb gwasanaeth o ddydd i ddydd a chyfrannu at bennu cyllideb.

- Sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw bryderon diogelu yn briodol o fewn y gwasanaeth.
- Cydymffurfio â Chod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Tîm i asesu allbynnau'r Gwasanaeth o'u cymharu â fframwaith y canlyniadau y cytunwyd arnynt drwy fonitro gweithgaredd a chasglu gwybodaeth briodol gan gynnwys adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau.
- Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru i gynnwys cyllid, adrodd, rheoli data a diogelu.
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ac arfer gwrth-wahaniaethol drwy'r gwaith a wneir fel rhan o'r swydd.
- Ymgymryd â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau eraill hynny sy'n ofynnol yn rhesymol gan y sefydliad ac sy'n gyson â'r radd.

**Dangosyddion Perfformiad**

- Yn gyfrifol am ddarparu dangosyddion perfformiad allweddol a safonau ymarfer.
- Ansawdd gwasanaeth a chydymffurfiaeth o'u cymharu â safonau a gofynion statudol, rheoleiddiol, sefydliadol ac arfer gorau.
- Cyflawni gwasanaethau ac amcanion a thargedau unigol.

**Cyfrifoldeb rheoli llinell (ar 30/05/24):**
1 gweithiwr achlysurol

**Cyfrifoldeb rheoli cyllideb (ar 30/05/24):**
£21,000

**Gradd:**
MS7

**Amodau gwaith:**
37 awr yr wythnos gydag ymagwedd hyblyg tuag at yr wythnos waith a fydd yn cynnwys rhywfaint o weithio ar benwythnosau a gyda'r nos ac ar adegau, aros i ffwrdd dros nos er mwyn mynd i gyfarfodydd, cynadleddau neu i gael hyfforddiant.

Bydd angen teithio i wahanol leoliadau ar draws Cymru a'r DU hefyd.

**Gwerthoedd**
Bydd deiliad y swydd yn:

- Onest
- Caredig
- Dibynadwy
- Parchus
- Meddu ar feddwl agored
- Grymuso.

**Cymwysterau**

- Cymhwyster proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol, gwaith ieuenctid a chymunedol neu ddisgyblaeth berthnasol megis Iechyd ac Addysg (dymunol)

| |
|---|
| |
| **Sgiliau a galluoedd/cymwyseddau**<br>Bydd deiliad y swydd yn gallu:<br><br>• Cynhyrchu canlyniadau o ansawdd mewn modd amserol ac sy'n canolbwyntio ar wasanaeth ac yn ymrwymedig i gyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt.<br>• Rhoi cyfarwyddyd clir a darparu amgylchedd cefnogol lle gall rhieni arwain, dysgu, tyfu a chymryd cyfrifoldeb.<br>• Gweithio'n dda gyda chydweithwyr a phartneriaid a chydnabod gwahanol syniadau, safbwyntiau a chefndiroedd pobl eraill.<br>• Cynllunio a threfnu gwaith a rheoli amser yn effeithiol.<br>• Cyfathrebu'n effeithiol h.y. mynegi gwybodaeth a syniadau mewn modd clir, cryno a chywir; gwrando'n astud a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu.<br>• Bod yn agored i ddulliau a syniadau newydd, ymateb yn gadarnhaol i newid ac addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd.<br>• Chwilio am gyfleoedd ar gyfer dysgu parhaus a thwf proffesiynol. |
| **Gwybodaeth/Profiad**<br><br>Bydd deiliad y swydd yn gallu dangos dealltwriaeth gadarn a chofnod o gyflawni yn y canlynol:<br><br>• Eiriolaeth<br>• Hawliau<br>• Datblygu Prosiect/Gwasanaeth<br>• Ymchwil<br>• Rheoli/Arwain Tîm<br>• Gweithio mewn partneriaeth â rhieni<br>• Diogelu |
| **Arall**<br>• Arddangos gwerthoedd ac ymddygiadau TGP Cymru ar bob adeg a'u hybu mewn eraill<br>• Ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth<br>• Trwydded yrru lawn a bod â cherbyd gennych chi *(Mewn rhai achosion bydd ymgeiswyr sy'n methu â gyrru o ganlyniad i anabledd yn cael eu hystyried ar gyfer y swydd.)*<br>• Y gallu i siarad Cymraeg (dymunol) |